# Ysgol Gynradd Biwmares.

Ysgol Gynradd Biwmares
Maeshyfryd
Biwmares
Ynys Mon
LL58 8HL
(01248 810451)
pennaeth.beaumaris@ynysmon.gov.uk

Pennaeth/ Headteacher – Ms Bethan Wyn Jones

# Gwybodaeth i rieni.
# Information for parents.
# (2018 – 2019)

**Annwyl Riant**

**Croeso i Ysgol Gynradd Biwmares.**

**Wrth gyflwyno'r llawlyfr hwn, fe garem estyn croeso cynnes i'ch plentyn i'r ysgol.Pwysleisiwn mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Mewn cydweithrediad fe obeithiwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol.**

**Mae'r ysgol yn darparu addysg o'r radd orau sy'n cynnig ystod eang o brofiadau diddorol wedi ei ddarparu gan staff, llywodraethwyr a chyfeillion ymroddedig. Ein bwriad yn Ysgol Biwmares yw creu awyrgylch hapus, gyfeillgar a diogel ble y rhoddir cyfle i bob plentyn lwyddo. Rydym yn hyderus y bydd pob plentyn yn edrych yn ôl ar eu dyddiau yn Ysgol Biwmares fel cyfnod hapus yn eu bywydau oedd yn sylfaen gadarn i weddill eu bywyd.**

**Gobeithiwn y bydd y llawlyfr hwn o gymorth i chi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o bethau sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth yr ysgol ac i helpu'ch plentyn ymgartrefu'n fuan.**

**Er hynny nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid. Fe'ch gwahoddir i drafod ei gynnwys (neu unrhyw beth nad ydyw wedi ei gynnwys) gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.**

**Yn gywir iawn**

**Bethan Wyn Jones**

Dear Parent

Welcome to Ysgol Beaumaris.t

In presenting this handbook ‘Information to parents’ I would like to welcome your child to the school. We emphasise that your child’s education is a partnership between the school and home. Whilst working together, we hope that your child’s period at the school will be a happy one where they will develop educationally and personally.

We always aim to provide first class education that offers a wide range of interesting experiences provided by staff, governors and dedicated friends of the school. At Ysgol Gynradd Beaumaris , we ensure a happy, friendly and safe environment where each child is given the opportunity to succeed. We are confident that your child will look back at their days at Ysgol Gynradd Beaumarist as a happy period in their lives that was a solid foundation for their future.

I hope this handbook will help you to understand the school and how you can support the work we do in school at home. We here haver a vast amount of information regarding the school in the hope that you gain an understanding of its values, and to help your child to settle as soon as possible.

It is not possible to include all the information regarding the school in this handbook, and it’s vital to note that some elements can change over the school year. If you wish to discuss any matters that arise from the handbook, or have any questions regarding the school please contact us.

Yours faithfully,

**Bethan Wyn Jones**

**Llywodraethwyr Yr Ysgol/School Governors**

**Cadeirydd/Chair:** Mrs Emma Taylor
55 Maeshyfryd, Biwmares.

**Is – gadeirydd / Vice chair :** Mr Timothy Williams

**Cynrychiolydd yr A.A.Ll./ LEA Representative:**
Cyng. Alun Roberts

**Cynrychiolydd y Cyngor Tref / Town Council Representative :** Cyng. Rhian Jones

**Cynrychioli Rhieni/ Parents' Representative :**
Gabriel Eichstellar
Stacey Jolleys
Laura Jayne Roberts

**Cyfetholedig/ Coopted :** Karen Cross
Timothy Williams
Emma Taylor

**Cynrychiolydd yr athrawon/Teachers'Representative:**
Rhys Parry

**Cynrychiolydd y staff cefnogi/ Support staff Representative :** Mrs Alwen Moore

**Ex-Officio:** Ms Bethan Wyn Jones( pennaeth)

**Clerc/Clerk:** Mr David Mathias.

# Manylion Ymarferol / Practical Details

| STAFF YR YSGOL | SCHOOL STAFF |
|---|---|
| **Pennaeth** : Ms Bethan Wyn Jones | **Head** : Ms Bethan Wyn Jones |
| ***Athrawon***<br>*Cyfnod Sylfaen : Miss Rhian Wood*<br>Cyfnod Allweddol Dau :<br>Ms Bethan Wyn Jones | ***Teachers***<br>*Foundation Phase : Miss Rhian Wood*<br>Key Stage 2 :<br>Ms Bethan Wyn Jones |
| ***Cymorthyddion / Staff Ategol***<br>*Mrs Alwen Moore*<br>*Mrs Nia Mathews* | ***Assiatants***<br>*Mrs Alwen Moore*<br>*Mrs Nia Mathews* |
| *Cymhorthydd ADY*<br>*Mrs Iona Griffiths* | *SEN Assistant*<br>*Mrs Iona Griffiths* |
| **Swyddog Cefnogi Ysgol**<br>Mrs Rhian Iolen Jones | **School Support Officerl**<br>Mrs Rhian Iolen Jones |
| **Goruchwylwyr Canol Dydd**<br>Mr Geraint Lewis<br>Mrs Susan Roberts | **Mid Day Supervisors**<br>Mr Geraint Lewis<br>Mrs Susan Roberts |
| **Goruchwylwyr Clwb Brecwast**<br>Mrs Caroline Williams | **Breakfast Club Supervisor**<br>Mrs Caroline Williams |
| **Cogyddes**<br>Miss Debra Roberts | **Cook**<br>Miss Debra Roberts |
| **Glanhawraig â gofal**<br>Mrs Caroline Williams<br>**Glanhawraig**<br>Mrs Helen Jones | **Cleaner in charge**<br>Mrs Caroline Williams<br>**Cleaner**<br>Mrs Helen Jones |
| **Clwb ar ol ysgol**<br>Mrs Alwen Moore | **After School Club**<br>Mrs Alwen Moore |

# Trefn Diwrnod / Order of the Day

| Amser / Time (am/pm) | Gweithgaredd / Activity. |
|---|---|
| 8.00 – 8.25 | Clwb Gofal/ Morning Care Club |
| 8.25 – 8.55 | Clwb Brecwast / Breakfast Club |
| 8.55 | Ysgol yn dechrau / School starts |
| 10.45 – 11.00 | Amser Chwarae / Morning Break |
| 12.00 – 1.00 | Cinio / Lunch Hour |
| 2.15 – 2.30 | Amser Chwarae/Afternoon Break |
| 3.00 | Ysgol yn terfynu i'r CS/End of school for F.Ph. |
| 3.30 | Ysgol yn terfynu i CA2/ End of school for KS2 |
| 3.00 – 3.30 | Clwb Chwarae/ Play Club |
| 3.30 – 5.30 | Clwb ar ol Ysgol/ After School Club |

<u>**Polisi derbyn yr ysgol / School's Admission Policy**</u>

**Yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.**

**Full time in September following their 4th birthday.**

## *EIN HAMCAN*

. **Yn Ysgol Gynradd Biwmares rydym yn sicrhau awyrgylch hapus, gyfeillgar a diogel ble y rhoddir cyfle i bob plentyn ddatblygu sgiliau rhagorol i'r dyfodol.**

Nod yr ysgol hon yw sicrhau addysg o'r ansawdd gorau posib i **bob** plentyn, yn unol a'u hoedran a'u diddordebau, er mwyn iddynt dyfu'n bersonoliaeth lawn aciddatblygu i'w llawn botensial. Anelir at ddatblygu eu holl ddoniau, a rhoi arfauangenrheidiol i bob plentyn ddod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.Gwneir hyn oll mewn awyrgylch hapus, cyfeillgar a disgybledig lle y gofelir am bawb yn academaidd ac yn gymdeithasol.

## *YR YSGOL HEDDIW*

*Mae'r ysgol yn nalgylch Ysgol David Hughes, Porthaethwy*
*Mae'n ysgol gydag un Pennaeth, un athro/athrawes (l)lawn amser ac un athro/athrawes r(h)an-amser. Mae'r ysgol wedi ei gosod yn y band melyn.*

*Gobeithir rhoi sylw unigol i bob plentyn, yn arbennig mewn sgiliau Mathemateg, Ieithyddol a TGCh.*

*Yn y Cam Sylfaen rydym yn targedu cyflawniadau hyd at ddeilliant 5-6 a thu draw iddo, tra thargedir plant yn CA2 i gyrraedd lefel 4-5 a thu draw (gan sicrhau wrth gwrs bod datblygiad naturiol yn addysg y plentyn).*

*Asesir gwaith plant yn barhaus, gan ddefnyddio asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Yn nhymor yr haf rydym hefyd yn defnyddio'r prawf rhifedd a llythrennedd cenedlaethol. Rydym yn defnyddio Incerts i dracio cynnydd y disgyblion drwy gydol y flwyddyn.*

*Cynhelir gwasanaethau bore bob dydd lle ceir cyfleoedd i ddosbarthiadau, grwpiau blwyddyn a'r ysgol gyfan ddod at ei gilydd ar wahanol achlysuron.*
*Mae gwasanaethau'n seiliedig ar faterion ysbrydol a moesol. Rydym hefyd yn dathlu dyddiau arbennig.*

## *THE SCHOOL TODAY*

*The school is in the David Hughes, Menai Bridge catchment area.*
*It is a school with one Head Teacher, onefull time teacher and one part time teacher. The school is placed in the yellow banding.*

*It is hoped to give individual attention to each child, especially in Mathematical, Linguistic skills and IT.*

*In the Foundation Phase we target achievements up and beyond outcome 5-6 , while children at KS2 are targeted to reach level 4-5 and beyond (making sure of course that there is a natural development in the child's education).*

*Pupils work is assessed continuously, using formal and informal assessments. In the summer term we also use the national numeracy and literacy test. We use Incerts to track all pupil's progress throughout the year.*

*Morning assemblies are held every day where there are opportunities for classes, year groups and the whole school to come together on different occasions.*
*Assemblies are based on spiritual and moral issues.We also celebrate special days.*



## *CYFFREDINOL*

*Ysgol Gymraeg yw Ysgol Beaumaris mewn ardal draddodiadol Seisnig. Ysgol Gynradd Sirol Babanod/Iau ddwyieithog ydyw. Mae'r prif gyfrwng addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn dechrau yn y dosbarth meithrin/derbyn a hyrwyddir sgiliau ychwanegol wrth i'r plentyn fynd drwy'r adran Babanod.*

*Cyflwynir Saesneg ym Mlwyddyn 2, a'n hamcan yw i ddisgyblion fod yn ddwyieithog yn CA2*

***Llefrith***
*Mae llefrith yn rhad ac am ddim ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd M, 0, 1 a 2.*

***Ffrwythau***
*Ceir cyfle i brynu ffrwythau yn Siop yr Ysgol bob bore. Gall plant hefyd ddod â ffrwythau o'u cartref.* ***Ni chaniateir pethau da, bisgedi a diodydd siwgwraidd ar unrhyw achlysur.***

***Prydau Ysgol***
*Mae prydau ysgol yn costio £2:20 yn ddyddiol. Gofynnir i rieni dalu'n wythnosol ymlaen llaw ar ddydd Llun neu ar ddydd Gwener, yn ddewisol gyda siec – wedi ei gwneud yn daladwy i Gyngor Sir Ynys Môn neu drwy ein cyfundrefn dalu ar lein, school coms. Rhowch eich taliad i'r athro/athrawes d(d)osbarth mewn amlen. Bydd y clerc cinio ysgol yn casglu'r arian o'r dosbarthiadau.*

*Mae ychydig o blant yn dod â chinio pecyn a darparir yn gyfleus ar eu cyfer.Ni chaniateir diodydd pop na gormodedd o siocled yn y pecyn bwyd. Yn ystod amser cinio rhoddir dyletswyddau arbennig i'r plant hŷn,er mwyn creu hunan-ddisgyblaeth a synnwyr o gyfrifoldeb. Rydym yn eu galw'n 'Fonitoriaid ' ac yn 'Bydis'.*

***Absenoldeb***
*Mae'n rhaid cwmpasu pob absenoldeb gyda nodyn neu neges bersonol yn uniongyrchol gan rieni (tystysgrif meddygol os bydd yn fwy nag wythnos) i'r athro/athrawes (d)dosbarth. Dylid gwneud galwad ffôn i adrodd am absenoldeb rhwng 8:30 a 8:50 [Rhif ffôn 01248 810451]*

*Apwyntiadau deintydd: Lle bo modd dylid trefnu'r rhain y tu allan i oriau ysgol. Dylid cynhyrchu cardiau apwyntiadau, neu nodyn neu neges a wnaed yn uniongyrchol i'r athro dosbarth.*

*Mae Addysg Gorfforol yn bwnc statudol a dylai disgyblion sy'n dymuno cael eu hesgusodi o AG ar dir meddygol ddarparu nodyn rhieni.*

*Mae'n ofynnol i rieni ar wyliau blynyddol yn ystod amser tymor gwblhau ffurflen wyliau ymlaen llaw, sydd ar gael o swyddfa'r ysgol. Dim ond o dan amgylchiadau arbennig y mae'r Llywodraethwyr yn awdurdodi cyfnod gwyliau yn ystod amser tymor.*

***Meddygol***
*Gofynnir i rieni roi gwybod i'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar ddisgybl.*

## *GENERAL*

*Ysgol Beaumaris is a Welsh school in a traditional English area. It is a bilingual Infant/Junior County Primary School. The main medium of teaching is through the Welsh language. This commences in the nursery / reception class and additional skills are supplemented as the child goes through the Infants' section.*

*English is introduced in Year 2, and our aim is for pupils to be bilingual at KS2.*

***Milk***

*Milk is free for pupils in Years N, 0, 1 and 2.*

***Fruit***

*There is an opportunity to buy fruit at the School Shop every morning. Children can also bring fruit from home.* ***Sweets, biscuits and sugary drinks are not allowed on any occasion.***

***School Meals***

*School meals cost £2:20 daily. Parents are asked to pay weekly on Mondays or Friday, preferably by cheque – made payable to Anglesey County Council or through our online payment system ,school coms. Please give your payment to the class teacher in an envelope. The school dinner clerk will collect the money from the classes.*

*A few children bring packed lunches and they are conveniently catered for. During the lunch break the older children are given certain duties, in order to create self-discipline and a sense of responsibility. We call them 'Monitors' and 'Buddies'.*

***Absence***

*All absences must be covered by a note or a personal message direct from parents (a medical certificate if more than one week) to the class teacher. Telephone call to report an absenteesm should be made between 8:30 and 8:50 [Telephone 01248 810451]*

*Dental appointments: Where possible these should be arranged outside school hours. Appointment cards should be produced, or a note or message made directly to the class teacher.*

*Physical Education is a statutory subject and pupils wishing to be excused from PE on medical grounds should provide a parent's note.*

*Parents on annual holiday during term time are required to complete a holiday form in advance, available from the school office. Only under special circumstances does the Governors authorise holiday leave during term time.*

***Medical***

*Parents are requested to inform the school of any medical or clinical condition which might affect a pupil.*

***Diogelwch***
*Mae pob eiddo preifat yn gyfrifoldeb y disgybl dan sylw.* ***Dylai pob eitem o ddillad fod wedi ei nodi'n glir ar gyfer pwrpasau adnabod.*** *Ceidw'r yr hawl gan yr ysgol ii labelu eitemau ar ran disgyblion y mae eu rhieni wedi methu â gwneud hynny.*
*Bydd yn ofynnol i unrhyw ddisgybl sy'n euog o ddifrodi eiddo ysgol yn fwriadol wneud ad-daliad am y difrod.*

***Cytundeb Cartref-Ysgol***
*Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb statudol i sefydlu Cytundebau Cartref-Ysgol, y mae'n ofynnol i rieni a disgyblion eu harwyddo. Mae Cytundebau Cartref-Ysgol wedi eu cyflwyno oherwydd bod y Papur Gwyn 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd' wedi adnabod rôl allweddol rhieni mewn cynorthwyo'u plant i ddysgu. Gobeithir bod y cytundeb yn dynodi'n glir rôl yr ysgol, y rhieni a'r disgyblion yn y broses addysgu.*

| ***RHEOLAU CYFFREDINOL - DYDDIOL*** |
|---|

*Gosodir rheolau cyffredinol syml er cyfleustra i bawb. Drwy osod y rhain, gobeithir creu awyrgylch diogel ar gyfer y plant, hefyd, i greu hunan-ddisgyblaeth, a pharch tuag at bawb yn yr ysgol.*

1. *Cadw at y 4 rheol:*

   ***(a) Bod yn gyfaill da i bawb yn yr ysgol***
   ***(b) Cerdded yn yr ysgol.***
   ***(c) Gweithio'n galed yn yr ysgol.***
   ***(d) Parchu'r Ysgol.***

2. *Ni chaniateir i blant ddod â phethau da i'r ysgol, er y caniateir pethau da pesychu yn y dosbarth o dan ganiatâd arbennig gan y Pennaeth.*
   ***Ni chaniateir i blant ddod â ffonau symudol i'r ysgol.***

2. *Gobeithir y bydd pob plentyn yn gwneud ymdrech i gadw'r ysgol yn dwt ac yn daclus drwy:*

   ***(a) roi eu dillad a'u bagiau ymaith mewn lle penodedig.***
   ***(b) rhoi ysbwriel yn y biniau.***
   ***(c) cadw eu dillad yn dwt ac yn lân.***

3. *Ni chaniateir i unrhyw blentyn fynd allan drwy giât yr ysgol yn ystod oriau ysgol, am unrhyw reswm, oni fydd yng nghwmni ei riant/gwarchodwr ar amser wedi ei rag-drefnu.*

4. ***Ni chaniateir i unrhywun ysmygu yn yr ysgol, ar dir yr ysgol nac wrth giât yr ysgol***

5. *Mae giât yr ysgol ynghau am 8.45 y.b. bob bore.*
6. *POLISI yr ysgol yw fod pob plenty yn gwisgo GWISG YSGOL.*

***7. Cedwir adroddiad ysgrifenedig o bob digwyddiad o ymddygiad gwael a diffyg ymdrech.***

***Rhoddir gwybod i rieni am ymddygiad o'r fath.***

***Security***
*All private property is the responsibility of the pupil concerned.* ***All items of clothing should be clearly marked for identification purposes.*** *The school reserves the right to label items on behalf of pupils whose parents have failed to do so.*
*Any pupil who is guilty of damaging school property may be required to make recompense for the damage.*

***Home-School Agreement***
*All schools have a statutory responsibility to establish Home-School Agreements, which parents and pupils are requested to sign. Home-School Agreements have been introduced because the White Paper 'Building Excellent Schools Together' recognised the crucial role of parents in helping their children learn. It is hoped that the agreement indicates clearly the role of the school, parents and pupils in the learning process.*

## *GENERAL RULES - DAILY*

*Simple general rules are set for convenience to all. By setting these, it is hoped to create a secure atmosphere for the children, also, to create self-discipline, and respect for all at the school.*

1. *Keep to the 4 rules:-*

   ***(a) Be a good friend to all at school.***
   ***(b) Walk in school.***
   ***(c) Work hard at school.***
   ***(d) Respect the school.***

2. *Children are not allowed to bring sweets to school, although cough sweets are allowed in class under special permission by the Head Teacher.*
   ***Children are not allowed to bring mobile phones to school.***

2. *It is hoped that every child will make an effort to keep the school neat and tidy by:-*

   ***(a) putting their clothes and bags away in an appointed place.***
   ***(b) put litter in the bins.***
   ***(c) keep their clothing neat and clean.***

4. *No child is allowed out of the school gate during school hours, for any reason, unless accompanied by his/her parent/guardian at a pre-arranged time.*

5. ***Nobody is allowed to smoke in school, on school grounds or by the school gate.***

6. *The school gate is closed at 8.45 a.m. each morning.*

***A written report of all incidents of bad behaviour and lack of effort will be kept. Parents are informed of such behaviour.***

## *AMCANION CYFFREDINOL*

*Amcan yr ysgol yw rhoi addysg gyfansawdd dda sy'n llawn o brofiadau cyfoethog. Rydym yn ffocysu ar sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn dysgu sgiliau hanfodol a fydd o fudd iddynt ar gyfer bywyd yn gyffredinol.*

*Amcanion Arbennig*

1. *Gwrando'n astud, meddwl yn annibynnol, arfarnu ffeithiau a ffurfio barn wybodus*

2. *Cyfathrebu'n llafar yn y Saesneg a'r Gymraeg i safon uchel.*

3. *Darllen yn gywir ac yn rhugl gan ddangos dealltwriaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

4. *Datblygu ffurf o lawysgrifen redeg y gellir ei deall, ynghyd â safon foddhaol o sgiliau elfennol yn y ddwy iaith.*

5. *Defnyddio sgiliau technolegol gyda phwrpas a rhwyddineb.*

6. *Datblygu gwybodaeth wyddonol.*

7. *Dysgu defnyddio sgiliau ymchwilio a defnyddio'r wybodaeth ar gyfer pwrpas penodol.*

8. *Datblygu gwerthoedd moesol, dangos parch tuag atynt eu hunain ac eraill.*

9. *Creu gwybodaeth o'r dyniaethau a chariad tuag atynt, a bod yn ymwybodol o wahanol leoedd ac amserau.*

10. *Defnyddio cerddoriaeth, drama, celf a chrefft yn ffurf o gyfathrebu personol.*

11. *Dod yn hyderus mewn sgiliau corfforol.*

*Mae'r ysgol wedi ei rhannu'n ddwy brif ran:*

(a) *Y Cam Sylfaen [ rhai 3-7 oed ] – Dosbarth Meithrin a Derbyn Blynyddoedd 1 a 2*
*Athrawes ddosbarth Miss Rh. Wood*

(b) *CA2 [rhai 7-11 oed ] Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 –*
*Ms B W. Jones (pennaeth) 4 diwrnod a ______________ 1 ddiwrnod*

## *Y CWRICWLWM*

*Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi ffurfio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Bydd gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu dehongli yng ngoleuni polisïau ac athroniaeth presennol yr Awdurdod .*

## *GENERAL AIMS*

*The aim of the school is to give a good comprehensive education that is full of rich experiences. We focus on ensuring that all pupils learn essential skills that will benefit them for life in general.*

*Particular Aims*

1. *Listen attentively, to think independently, evaluate facts and to form an informed knowledgeable opinion*

2. *Communicate orally in both English and Welsh language to a high standard.*

3. *Read correctly and fluently showing understanding in both Welsh and English.*

4. *Develop a legible cursive form of handwriting, together with a satisfactory standard of elementary skills in both languages.*

5. *Use technological skills with purpose and ease.*

6. *Develop scientific knowledge.*

7. *Learn to use researching skills and use the information for a definite purpose.*

8. *Develop moral values, showing respect for themselves and others.*

9. *Create knowledge and love of humanities, and to be aware of different places and times.*

10. *Use music, drama, art and craft as a form of personal communication.*

11. *To become confident in physical skills.*

*The school is divided into two main parts:-*

(a) *Foundation Phase [ 3-7 years of age ] – Nursery and Reception Class, Years 1 and 2*
*Class teacher Miss Rh. Wood*

(b) *KS2 [7-11 years of age ] Years 3, 4, 5 and 6 –*
*Ms B W. Jones ( head) 3 days and Mr Rhys Parry 2 days*

### *THE CURRICULUM*

*In accordance with the requirements of the Education Act 1986, the Education Authority has formed, and intends to review regularly, a written statement of policy regarding the secular curriculum. The requirements of the National Curriculum will be interpreted in the light of the Authority's present policies and philosophy.*

*Quoted below are the introduction and general aims of the statement as seen in the Education Authority's document:-*

*Wedi eu dyfynnu isod ceir cyflwyniad ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y'i gwelir yn nogfen yr Awdurdod Addysg:*

*Cyflwyniad*

*Amcan cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a darparu adnoddau a fydd yn galluogi i bob plentyn ddatblygu personoliaeth lawn, datblygu ac ymarfer ei holl sgiliau, darparu ar gyfer y disgybl yn unol â'i oed, ei allu a'i gymhwyster, fel ei fod ef/hi'n gallu dod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, sy'n gallu cyfrannu at y gymdeithas honno ac elwa oddi wrthi a byw mewn heddwch a brawdoliaeth gyda chyd-ddyn.*

*Ceir tair agwedd ryngberthynol i'r datganiadau cyffredinol, h.y. yr angen i:*

*(a) Alluogi i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial.*
*(b) Sicrhau y cyflwynir pob plentyn i'w dreftadaeth Gymreig.*
*(c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu'n aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.*

*Nodau cyffredinol*

1. *Datblygu sgiliau llafar, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun ysbrydoli brwdfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.*

2. *Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei bwerau rhesymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n prysur newid ac sydd â phrosesau a thechnegau soffistigedig yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.*

3. *Creu ym mhob plentyn y dymuniad i geisio gwybodaeth a phrofiad pellach yn ystod ei fywyd a datblygu ei bwerau meddwl, ei foesau a'i ymwybyddiaeth ysbrydol.*

4. *Cynorthwyo'r plentyn i fyw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau a fydd yn ei alluogi i ddod yn aelod cyfrifol o'r gymuned.*

5. *Datblygu sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetaidd a sgiliau hamdden yn y plentyn.*

6. *Darparu sylw arbennig i bob plentyn gydag anghenion arbennig, e.e. ar gyfer rhai eithriadol o alluog ac ar gyfer y rhai hynny gyda gwahanol anfanteision.*

7. *Cyflwyno syniadau a chysyniadau drwy ddefnyddio dulliau bywiog a dynamig, a bydd hyn yn symbylu ymateb disgyblion.*

*Mae'n angenrheidiol i bob ysgol baratoi a datblygu cynlluniau cyfansawdd yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys manylion o'r cwrs addysg a'r ffordd y'i gweithredir er mwyn sicrhau bod yr addysg a roddir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn ag amcanion y ddogfen. Cedwir y cynlluniau hyn yn swyddfa'r ysgol, ac maent ar gael i rieni eu gweld drwy apwyntiad*

*Introduction*

*The aim of an education system is to create situations and provide resources that will enable each child to develop a full personality, to develop and exercise all his or her abilities, to provide for the pupil in accordance with his/her age, ability and aptitude, so that he/she is able to become a responsible member of a bilingual society, able to contribute to that society and benefit from it, and to live in peace and fraternity with fellow men.*

*There are three inter-related aspects to the general statements, i.e. the need:-*

*(a) To enable each child to develop his/her full potential.*
*(b) To ensure that each child is introduced to his/her Welsh heritage.*
*(c) To give an opportunity for each child to develop as a full member of a rapidly changing society.*

*General objectives*

1. *To develop oral, literary and numerical skills in the context of inspiring the child's enthusiasm, imagination and interest.*

2. *To increase the child's knowledge and to develop his powers of reasoning in order to assist him to adapt to a rapidly changing world which has more sophisticated processes and techniques, in particular in relation to information technology.*

3. *To create in each child the desire to seek further knowledge and experience during his life and to develop his powers of mind, his moral and spiritual awareness.*

4. *To assist the child to live and work with others and to develop attitudes which will enable him/her to become a responsible member of the community.*

5. *To develop sensitivity, aesthetic appreciation and leisure skills in the child.*

6. *To provide particular attention for each child with special needs, e.g. for the exceptionally able and for those with various disadvantages.*

7. *To present ideas and concepts by employing lively and dynamic methods, this will motivate pupil's response.*

*It is necessary for every school to prepare and develop comprehensive plans based on the Education Authority's document. These plans will include details of the education course and the way it is operated in order to ensure that the education given to the pupils meets fully with the aims of the document. These plans are kept in the school office, and are available for parents to view by appointment.*

## *CYNLLUN GWAITH YR YSGOL*

*Mae'r CS a CA2 yn dilyn set o themâu dros gyfnod o bedair blynedd. Anogir rhieni i siarad â'u plant am waith yr ysgol – ac ateb cwestiynau neu siarad am eu profiadau perthynol eu hunain. Bydd hyn yn ehangu eu gorwelion ac yn cynyddu eu gwybodaeth. Yn CA2 bydd themâu yn ymgorffori pynciau unigol yn achlysurol. Byddai'r ysgol yn falch o dderbyn neu fenthyg unrhyw luniau neu eiddo etifeddol a fyddai'n ychwanegu at y gwaith prosiect.*

## *GWAITH CARTREF*

1. *Ni roddir gwaith cartref ffurfiol ar sail reolaidd i'r CS. Fodd bynnag mae'r Ysgol yn disgwyl i bob rhiant ddarllen yn ddyddiol gyda'u plentyn.*

2. *Rhoddir gwaith cartref i'r plant Iau ar sail gweithgaredd dosbarth a all amrywio o blentyn i blentyn yn ddibynnol ar allu a dealltwriaeth o waith dosbarth. Yn CA2 disgwylir darllen dyddiol yn Gymraeg a Saesneg. Mae dysgu'r tablau lluosoi yn gynnar yn CA2 yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth mathemategol hanfodol.Gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu ac yn annog y plentyn yn ei waith.*

3. *O bryd i'w gilydd mae gweithgaredd arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith cyfweld ac ymchwilio gan y plentyn. Bydd yr ysgol yn sensitif i amgylchiadau disgyblion ac yn deall na fydd rhieni'n achlysurol yn gallu cefnogi eu plentyn.*

4. *Yn achlysurol gall athro arbennig ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn goresgyn rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig ar waith. Disgwyliwn i riant sicrhau bod disgyblion yn cwblhau tasgau dal i fyny yn brydlon.*

## *GEMAU*

*Mae'r holl blant yn derbyn gwersi AG wythnosol. Rydym yn defnyddio'r iard, cae'r ysgol, Neuadd yr ysgol, a phwll nofio Llangefni. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, bydd disgyblion yn derbyn hyfforddiant mewn nofio, rygbi, tennis, pêl-rwyd, pêl fasged, hoci, dawns, chwaraeon antur ac athletau. Ceir cyfleoedd hefyd ar gyfer cystadlaethau tîm gydag ysgolion lleol a'r Urdd.*

## *THE SCHOOL'S SCHEME OF WORK*

